Canllawiau Cam wrth Gam i Wneud Cais

Taith – Llwybr 2: Prosiectau Cydweithredol Rhyngwladol

Blwyddyn y galwad: 2022

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 1 Rhagfyr 2022, 12pm

Tabl cynnwys

Cyflwyniad 2
Cyn dechrau 3
Cwblhau'r ffurflen gais 3
Ffurflen gais – gwybodaeth a chanllawiau tudalen 4
Tudalen 1: | Nodiadau canllaw ar gwblhau eich ffurflen gais 4
Tudalen 2: | Manylion y sefydliad 4
Tudalen 3: | Crynodeb, amcanion a chanlyniadau'r prosiect 5
Tudalen 4: | Gweithgareddau'r prosiect 5
Tudalen 5: | Polisi Preifatrwydd, Cymhwysedd a Datganiad 6
Tudalen 6: | Rhestr wirio ceisiadau a chyflwyno 7
Tudalen 7: | Cais wedi'i gyflwyno 7

Cyflwyniad

Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu sefydliadau Cymru wneud cais i Lwybr 2 Taith – Partneriaethau a Chydweithio Strategol.

Canllawiau traws-sector yw hyn sy'n cynnig arweiniad sector-niwtral ar gyfer yr holl sectorau sy'n gymwys i gymryd rhan yn y Llwybr hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ysgolion
- Ieuenctid
- Addysg Oedolion
- Addysg Bellach (AB) ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG)

Mae gan y ffurflen ar-lein hon 7 tudalen:

1. Nodiadau canllaw ar gwblhau eich ffurflen gais
2. Manylion y sefydliad(au)
3. Trosolwg, amcanion a chanlyniadau'r prosiect
4. Gweithgareddau'r prosiect
5. Polisi preifatrwydd, cymhwysedd a datganiad
6. Rhestr wirio ceisiadau a'u cyflwyno
7. Cais wedi'i gyflwyno

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am unrhyw beth sy'n gysylltiedig â Llwybr 2 neu unrhyw broblemau'n cwblhau'r ffurflen gais neu gyda'r offeryn cyfrifo grant, cysylltwch â thîm Taith drwy e-bostio: ymholiadau@taith.cymru

Sicrhewch fod cynrychiolydd cyfreithiol eich sefydliad wedi darllen a chymeradwyo'r cais cyn i chi ei gyflwyno.

Cyn dechrau

Cyn dechrau eich cais, sicrhewch eich bod chi wedi darllen Canllawiau Rhaglen Llwybr 2 yn drylwyr ac yn deall manylion y llwybr, gan gynnwys ffocws y cyllid, themâu'r prosiect, gweithgareddau cymwys a'r cyllid sydd ar gael. Mae hefyd yn bwysig eich bod chi'n darllen rhannau perthnasol Canllawiau Craidd y Rhaglen, sy'n cynnwys pethau fel cymhwysedd sefydliadau, gwybodaeth asesu a phrosesau a gweithdrefnau perthnasol.

I ysgrifennu cais llwyddiannus, mae'n bwysig deall sut y caiff eich cais ei asesu. Gellir darllen meini prawf Llwybr 2 yng Nghanllawiau Rhaglen Llwybr 2, neu ar wefan Taith, ynghyd â chwestiynau ansoddol y ffurflen gais.

Cyn i chi ddechrau eich cais, rydym yn argymmell i chi:

- Ddarllen drwy'r Canllawiau i Lwybr 2 yn drylwyr;
- Darllen rhannau perthnasol y Canllaw''r Rhaglen Graidd;
- Sicrhau bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais;
- Gwirio bod gan eich sefydliad gapasiti ariannol a gweithredol digonol;
- Darllen drwy gwestiynau ansoddol a meini prawf asesu Llwybr 2 ar wefan Taith;
- Darllen drwy adnoddau Llwybr 2 a mynd i ddigwyddiadau i'ch helpu i gwblhau cais;
- Cysylltu â thîm Taith os bydd gennych chi gwestiynau.

Cwblhau'r ffurflen gais

Nid yw'r ffurflen gais yn galluogi i chi i gadw'ch gwaith wrth i chi fynd yn eich blaen, felly byddem ni'n argymell cwblhau'r cwestiynau ansoddol ar wahân a'u copïo a'u gludo i'r ffurflen gais pan fyddant wedi'u gorffen, er mwyn sicrhau nad ydych chi'n colli unrhyw beth. Mae copi o'r cwestiynau ansoddol ar wefan Taith.

Mae'n bosib cadw fersiwn o'r cais drwy glicio ar 'orffen wedyn' – bydd hyn yn creu dolen e-bost y gallwch chi ei ddefnyddio'n hwyrach. Gallwch chi rannu'r ddolen hon gyda chydweithwyr ac eraill sy'n cyfrannu at y cais, a bydd hyn yn rhoi'r un hawliau golygu a newid y ffurflen iddynt. Nid oes gan Taith fynediad i'r ddolen hon na'ch cais nes y caiff ei

gyflwyno, a dyma pam rydym ni'n argymell yn gryf cwblhau cynifer o'r cwestiynau â phosib all-lein yn gyntaf, er mwyn i chi allu cadw copi ohonynt.

Caiff meysydd y mae'n rhaid eu llenwi eu nodi gyda 'gofynnol' ac ni fydd y ffurflen yn eich galluogi chi i symud i'r dudalen nesaf oni bai bod y meysydd hyn wedi'u llenwi.

Mae gan rai o'r cwestiynau wybodaeth ychwanegol i'ch helpu chi i ateb y cwestiwn. I agor hyn, cliciwch ar y botwm 'rhagor o wybodaeth' o dan y cwestiwn.

Sicrhewch eich bod chi'n nodi dyddiad cau'r alwad hon, a'r dyddiad ar gyfer cyflwyno'r offeryn cyfrifo grant. Rhaid i'r holl geisiadau ac offerynau cyfrifo gael eu cyflwyno erbyn y dyddiadau hyn. Nid oes modd derbyn ffurflenni hwyr.

Ffurflen gais – gwybodaeth a chanllawiau tudalen

Mae'r rhan hon yn cynnig gwybodaeth ar dudalennau gwahanol y ffurflen gais a'r hyn sy'n ofynnol wrth i chi weithio drwyddi.

Tudalen 1: | Nodiadau canllaw ar gwblhau eich ffurflen gais

Mae tudalen gyntaf y ffurflen gais yn cynnig nodiadau canllaw ar y ffurflen gais, yn unol â'r wybodaeth uchod.

Tudalen 2: | Manylion y sefydliad

Yn y rhan hon, bydd angen i chi gynnig manylion am eich sefydliad, y cynrychiolydd cyfreithiol a'r unigolion i gysylltu â nhw. Bydd angen i chi roi manylion am y partner(iaid) rhyngwladol y byddwch chi'n gweithio gyda nhw, ac unrhyw sefydliadau partner yng Nghymru (lle bo'n berthnasol).

Sylwer bod yn rhaid i'r sefydliad sy'n gwneud cais fod wedi'i gofrestru ac yn gweithredu yng Nghymru.

Unigolyn/unigolion cyswllt: Dyma'r unigolyn/unigolion a fydd yn bwynt cyswllt cyntaf i Taith mewn perthynas â phob agwedd ar y cais a gweinyddu'r cyllid (ar gyfer ceisiadau llwyddiannus).

Y cynrychiolydd cyfreithiol: Dyma'r unigolyn â chyfrifoldeb cyfreithiol dros gynrychioli sefydliad ac sydd â'r awdurdod cyfreithiol i ymrwymo i gontract sy'n rhwymo'n gyfreithiol gan gynnwys, yng nghyd-destun Taith, yr awdurdod i lofnodi Cytundeb Grant.

Y prif swyddog ariannol (neu gyfwerth): Dyma'r unigolyn sy'n gyfrifol am faterion ariannol yn eich sefydliad ac sydd â'r awdurdod i lofnodi trafodion ariannol ar ran y sefydliad.

Cyrff Trefnu Sector: Cyrff Trefnu Sector yw sefydliadau a ariennir gan Taith i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cyllido sydd ar gael yn eu sector, a chynnig cyngor a chefnogi'r

sectorau hynny sy'n dymuno gwneud cais am gyllid. Gall Cyrff Trefnu Sector hefyd gynnig cymorth a chyngor i sefydliadau llwyddiannus ac aflwyddiannus yn dilyn y broses asesu felly pe hoffech chi i Taith rannu eich manylion gyda nhw at y diben hwn, cadarnhewch hynny yn y ffurflen gais.

Tudalen 3: | Crynodeb, amcanion a chanlyniadau'r prosiect

Mae'r cwestiynau ar y dudalen hon yn ymwneud â'r prosiect yn gyfan gwbl. Dylai atebion gynnwys digon o fanylion i ddangos bod y prosiect wedi'i ystyried yn drylwyr, bod gennych chi gynllun a rhesymeg glir mewn perthynas â'r bartrneriaeth/partneriaethau rhyngwladol, bod gennych chi allbwn prosiect a ddiffiniwyd yn glir ac y bydd eich sefydliad yn gallu rheoli gwaith gweinyddu, cynllunio a monitro'r prosiect i safon uchel.

Gweler y meini prawf asesu yng Nghanllawiau Rhaglen Llwybr 2, yn benodol 'Perthnasedd ac ansawdd amcanion y prosiect a chanlyniadau a gynllunir' i'ch helpu i ateb y cwestiynau yn y rhan hon.

Mae testun help ar gael ar gyfer pob cwestiwn yn y rhan hon, i roi ychydig o wybodaeth i chi am yr hyn mae'n rhaid i atebion ei gynnwys. I gyrchu'r testun helpu, cliciwch ar y botwm 'rhagor o wybodaeth' dan bob cwestiwn.

Gellir rhannu crynodebau prosiectau ar wefan Taith, gyda phwyllgor cyllid Taith a rhanddeiliaid allweddol eraill, felly dylid eu hysgrifennu mewn Cymraeg hawdd i'w deall a chynnwys gwybodaeth am holl elfennau allweddol eich prosiect.

Tudalen 4: | Gweithgareddau'r prosiect

Mae'r rhan hon yn gofyn i chi ddarparu disgrifiad manwl, cyfiawnhad a dadansoddiad cost ar gyfer gweithgareddau eich prosiect, a dangos sut y byddant yn cyfrannu at y prosiect a chreu allbwn y prosiect.

Gweler y meini prawf asesu yng Nghanllawiau Rhaglen Llwybr 2, yn benodol 'Ansawdd a chynllunio gweithgareddau'r prosiect' i'ch helpu i ateb y cwestiynau yn y rhan hon.

Mae gweithgareddau cymwys yn Llwybr 2 fel a ganlyn:

- Symudedd
- Rheoli a gweithredu'r prosiect
- Costau staff
- Costau lledaenu
- Costau cyfieithu

Ceir gwybodaeth am bob gweithgaredd, gan gynnwys uchafswm y ganran o gyllid y gellir ei chlustnodi i bob categori o weithgaredd, yng Nghanllawiau Rhaglen Llwybr 2.

Bydd angen i chi ddarparu dadansoddiad clir o gostau ynghyd â rhesymeg am y cyllid y mae cais amdano ym mhob categori gweithgaredd. Rhaid i'r gweithgareddau cyfrannu'n glir at lwyddiant y prosiect arfaethedig a chreu allbwn y prosiect. Rydym ni'n deall heriau amcangyfrif cyllidebau, ond rhaid sicrhau eich bod chi'n cynnig digon o fanylion i gyfiawnhau gofynion eich cyllideb arfaethedig.

Bydd yr offeryn cyfrifo grant yn eich galluogi chi i gyfrifo'r cyllid y gofynnir amdano ar gyfer pob categori o weithgaredd, a'r uchafswm cyllid cyffredinol. Mae'r offeryn cyfrifiannell yn gweithio drwy adio i fyny'r cyllid y gofynnir amdano ar gyfer y categorïau gweithgaredd, a dangos hyn yn y tab 'crynodeb o gyllideb'. Os gofynnir am gyllid dros y terfyn uchafswm am unrhyw gategori o weithgaredd, bydd y rhif yn troi'n goch i amlygu'r gwall. Os bydd cyfanswm y grant cyllido y gofynnir amdano'n fwy na'r uchafswm o £75,000, bydd y rhif yn troi'n goch i amlygu'r gwall. Sicrhewch fod y symiau y gofynnir amdanynt yn yr offeryn cyfrifo grant ar gyfer pob categori o weithgaredd yn cyd-fynd â'r rhai hynny rydych chi'n eu cyflwyno yn y ffurflen gais.

Caiff cyllid y gofynnir amdano ar gyfer gweithgareddau gyda phartneriaid rhyngwladol ei gyfrifo yn yr offeryn cyfrifo grant, a gallai fod hyd at 30% o'r swm y gofynnir amdano ar gyfer pob gweithgaredd, a'r cyllid cyffredinol y gofynnwyd amdano. Bydd yr offeryn cyfrifo grant yn cynnig swm mewn punnoedd y DU y gellir eu clustnodi ar gyfer gweithgareddau gyda phartneriaid rhyngwladol.

I ddeall y fformiwla gyfrifo sydd wedi'i gwreiddio yn yr offeryn cyfrifo grant, ac uchafswm y canrannau a ganiateir ym mhob categori gweithgaredd, gwiriwch ganllawiau'r rhaglen i gael gwybodaeth fanwl am gategorïau'r gyllideb a'r symiau grant cymwys sy'n berthnasol ar gyfer eich sector chi.

Bydd gofyn i chi gyflwyno copi o'r offeryn cyfrifo grantiau i ymholiadau@taith.cymru ar ôl i chi gyflwyno eich cais. Darperir rhagor o gyngor ar sut i wneud hyn yn rhan 'Tudalen gyflwyno'.

Os oes gennych chi gwestiynau am offeryn cyfrifo'r gyllideb, neu broblemau wrth eu cwblhau, cysylltwch â thîm Taith drwy e-bostio ymholiadau@taith.cymru i gael cymorth.

Tudalen 5: | Polisi Preifatrwydd, Cymhwysedd a Datganiad

Polisi preifatrwydd: Sicrhewch eich bod chi'n darllen y polisi preifatrwydd yn ofalus oherwydd ei fod yn rhoi esboniad manwl o sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych chi yn y ffurflen. Gallwch chi gyrchu polisi preifatrwydd llawn rhaglen Taith ar ein gwefan yma. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod chi wedi darllen y polisi preifatrwydd ac yn deall sut y caiff eich data personol ei ddefnyddio.

Rhestr wirio cymhwysedd: Er mwyn nodi cymhwysedd eich sefydliad a'ch cais, rhaid i chi gwblhau a chyflwyno rhestr wirio cymhwysedd. Mae'r rhestr wirio hon yn helpu Taith i gadarnhau statws, gallu ariannol a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad. Rhaid cwblhau'r rhestr wirio cymhwysedd a'i gyflwyno cyn i chi gyflwyno eich cais. Bydd hefyd angen i chi gyflwyno'r ffurflen creu cyflenwr a datganiad banc diweddar, ynghyd â'ch offeryn cyfrifo grant, erbyn 12 canol dydd ar 2 Rhagfyr 2 2022 fan hwyraf. **Sylwer:** *Os ydych chi eisoes wedi cwblhau'r rhestr wirio cymhwysedd,* ***rhaid i chi ei chwblhau eto*** *ar gyfer y cais hwn a chyflwyno ffurflen creu cyflenwr a datganiad diweddar gan eich banc.*

Datganiad: Mae'r rhan hon ar gyfer cynrychiolydd awdurdodedig yn gyfreithiol y sefydliad, er mwyn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hon yn gywir.

Tudalen 6: | Rhestr wirio ceisiadau a chyflwyno

Dyma eich cyfle olaf i wirio pob agwedd ar eich cais cyn i chi ei gyflwyno. Pan fydd cais wedi'i gyflwyno, nid oes modd ei newid felly gofynnir i chi wirio'r holl rannau eto a sicrhau bod yr atebion a'r wybodaeth yn gywir.

Bydd angen i chi ddarllen drwy'r rhestr wirio a chadarnhau'r canlynol:

- Rydych chi wedi cwblhau'r holl feysydd gofynnol yn y ffurflen gais
- Rydych chi wedi ateb yr holl gwestiynau'n llawn
- Rydych chi wedi cynnwys swm y grant y gofynnir amdano ac mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfanswm yn yr offeryn cyfrifo grant.
- Rydych chi wedi cwblhau a chyflwyno'r rhestr wirio cymhwysedd
- Rydych chi wedi cwblhau'r ffurflen creu cyflenwr yn barod i'w hanfon i ymholiadau@taith.cymru
- Mae gennych chi ddatganiad banc diweddar yn barod i'w anfon i ymholiadau@taith.cymru
- Rydych chi wedi cwblhau'r offeryn cyfrifo grant yn barod i'w hanfon i ymholiadau@taith.cymru
- Mae'r datganiad wedi'i gadarnhau gan gynrychiolydd cyfreithiol eich sefydliad

Pan fyddwch chi'n fodlon bod eich cais yn barod i'w gyflwyno a'ch bod chi wedi cwblhau'r holl ddogfennaeth uchod, cliciwch ar 'Gorffen' ar waelod y dudalen.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu bryderon o gwbl wrth gwblhau'r ffurflen hon, ac i gael rhagor o wybodaeth a chymorth gyda'ch cais, cysylltwch â'r tîm drwy e-bostio ymholiadau@taith.cymru, a byddwn yn hapus i ateb eich ymholiadau.

Tudalen 7: | Cais wedi'i gyflwyno

Pan fyddwch chi wedi cyflwyno eich cais, byddwch yn mynd i'r dudalen 'cais wedi'i gyflwyno'.

Bydd y blwch ar frig y dudalen, gyda'r teitl 'derbynneb o gwblhad' yn rhoi rhif derbynneb i chi. Gwnewch nodyn o'r hyn oherwydd dyma fydd eich cyfeirnod Taith, i'w ddyfynnu yn yr holl ohebiaeth.

Bydd y system yn rhoi 15 munud i chi lawrlwytho copi o'ch cais. Rydym ni'n argymell i chi wneud hyn fel bod gennych chi gopi ar gyfer eich cofnodion personol.

Bydd yn rhaid i chi gyflwyno copi o gyllideb eich prosiect (offeryn cyfrifo grant), a datganiad banc diweddar a ffurflen creu cyflenwr drwy e-bost i ymholiadau@taith.cymru.

Er mwyn i ni baru'r dogfennau hyn â'ch cais, dyfynnwch gyfeirnod eich cais Taith (rhif y dderbynneb) ym mhwnc eich e-bost: e.e. Dogfennau sy'n cyd-fynd â chyfeirnod cais XXXXXX-XXXXXX-XXXXXXXX.

Rhaid cyflwyno eich dogfennau atodol i ymholiadau@taith.cymru erbyn 2 Rhagfyr 2022, 12pm BST.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu bryderon o gwbl wrth gwblhau'r ffurflen gais neu'r offeryn cyfrifo grant, ac i gael rhagor o wybodaeth a chymorth gyda'ch cais, cysylltwch â'r tîm drwy e-bostio ymholiadau@taith.cymru, a byddwn yn hapus i ateb eich ymholiadau.

Taith.cymru

Taith.wales